



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 2618 (Cy.214)

2009 No. 2618 (W.214)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Gorchymyn Gweinidogion Cymru
(Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a
Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

The Welsh Ministers (Transfer of
Property, Rights and Liabilities)
(Wales) Order 2009

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Canolfan Iechyd Cymru a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru o dan Orchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009 i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

This Order transfers the property, rights and liabilities of the Wales Centre for Health that were transferred to the Welsh Ministers under the Wales Centre for Health (Transfer of Functions, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2009 to the Public Health Wales National Health Service Trust.

2009 Rhif 2618 (Cy.214)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Gorchymyn Gweinidogion Cymru
(Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a
Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

Gwnaed 28 Medi 2009
Yn dod i rym 1 Hydref 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18(4) a 203(10) a chan baragraff 9(1), (2), (3), (5) a (9) o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall–

ystyr "Canolfan Iechyd Cymru gynt" ("*the former Wales Centre for Health*") yw'r corff a elwid yn Ganolfan Iechyd Cymru neu the Wales Centre for Health a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 ac a ddiddymwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2009;

2009 No. 2618 (W.214)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The Welsh Ministers (Transfer of
Property, Rights and Liabilities)
(Wales) Order 2009

Made 28 September 2009
Coming into force 1 October 2009

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 18(4) and 203(10) and paragraph 9(1), (2), (3), (5) and (9) of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(1), make the following Order:

Title, commencement and application

1.–(1) The title of this Order is the Welsh Ministers (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2009 and it comes into force on 1 October 2009.

(2) This Order applies to Wales.

Interpretation

2. In this Order unless the context otherwise requires–

"the former Wales Centre for Health" ("*Canolfan Iechyd Cymru gynt*") means the body known as the Wales Centre for Health or Canolfan Iechyd Cymru established by section 2 of the Health (Wales) Act 2003 and abolished by the Wales Centre for Health Transfer Order;

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1 October 2009;

(1) 2006 p. 42.

(1) 2006 c. 42.

ystyr "Gorchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru" ("*the Wales Centre for Health Transfer Order*") yw Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009(1);

ystyr "yr Ymddiriedolaeth" ("*the Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(2).

Trosglwyddo Eiddo

3.–(1) Mae'r eiddo a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan erthygl 4 ac Atodlen 1 i Orchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru yn cael ei drosglwyddo, gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo, i'r Ymddiriedolaeth.

(2) Rhaid i'r Ymddiriedolaeth gadw at delerau'r lesioedd yr ymrwymodd Canolfan Iechyd Cymru gynt iddynt ac a gafodd eu trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth yn rhinwedd yr erthygl hon.

Gorfodadwyedd hawliau a throsglwyddo rhwymedigaethau

4.–(1) Mae pob hawl a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan erthygl 5(1) o Orchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru yn cael ei throsglwyddo, gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo, i'r Ymddiriedolaeth.

(2) Mae pob rhwymedigaeth a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan erthygl 5(2) o Orchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru yn cael ei throsglwyddo, gydag effaith o'r dyddiad trosglwyddo, i'r Ymddiriedolaeth.

Dirwyn i ben faterion Canolfan Iechyd Cymru gynt

5.–(1) Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gymryd y fath gamau ag sy'n angenrheidiol i ddirwyn i ben faterion Canolfan Iechyd Cymru gynt gan gynnwys paratoi cyfrifon dyladwy'r Ganolfan.

(2) Rhaid i'r Ymddiriedolaeth anfon y datganiad o gyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn 31 Rhagfyr 2009.

(3) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol–

(a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd o dan baragraff (2); a

"the Trust" ("*yr Ymddiriedolaeth*") means the Public Health Wales National Health Service Trust established by the Public Health Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2009(1);

"the Wales Centre for Health Transfer Order" ("*Gorchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru*") means the Wales Centre for Health (Transfer of Functions, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2009(2).

Transfer of Property

3.–(1) The property transferred to the Welsh Ministers by article 4 and Schedule 1 to the Wales Centre for Health Transfer Order is, with effect from the transfer date, transferred to the Trust.

(2) The Trust must abide by the terms of the leases entered into by the former Wales Centre for Health which have been transferred to the Trust by virtue of this article.

Enforceability of rights and transfer of liabilities

4.–(1) All rights transferred to the Welsh Ministers by article 5(1) of the Wales Centre for Health Transfer Order are, with effect from the transfer date, transferred to the Trust.

(2) All liabilities transferred to the Welsh Ministers by article 5(2) of the Wales Centre for Health Transfer Order are, with effect from the transfer date, transferred to the Trust.

Winding up of the affairs of the former Wales Centre for Health

5.–(1) The Trust must take such action as may be necessary for the winding up of the affairs of the former Wales Centre for Health including the preparation of the outstanding accounts of the Centre.

(2) The Trust must send the statement of accounts to the Auditor General for Wales before 31 December 2009.

(3) The Auditor General must–

(a) examine and certify the accounts submitted under paragraph (2); and

(1) O.S. 2009/2623 (Cy.215).

(2) O.S. 2009/ 2058 (Cy.177).

(1) S.I. 2009/2058 (W. 177).

(2) S.I. 2009/2623 (W. 215).

(b) gosod copi ohonynt fel y'u hardystiwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd ag adroddiad arnynt.

(b) lay before the National Assembly for Wales a copy of them as certified together with a report on them.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

28 Medi 2009

28 September 2009

©© Hawlfraint y Goron 2009

© Crown copyright 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.